

# Gwneud eich adroddiad tywydd eich hun

1 Os yw eich grŵp yn newydd i adrodd ar y tywydd, eglurwch mai datganiad yw rhagolygon y tywydd sy'n dweud sut fydd y tywydd y diwrnod wedyn neu'r ychydig ddyddiau nesaf. Dywedwch wrth y grŵp y byddan nhw'n rhoi cynnig ar wneud eu rhagolygon tywydd eu hunain y byddan nhw'n ei gyflwyno i'r grŵp os bydd amser. Gallant naill ai wneud hyn gan ddefnyddio'r cardiau rhagolwg (ar dudalennau 3 – 4) neu wefan y Swyddfa Dywydd i ddod o hyd i'r rhagolwg am weddill y diwrnod

2 I helpu'r grŵp, gallwch ddangos ychydig o enghreifftiau o ragolygon y tywydd, fel **y rhagolygon tywydd diweddaraf** gan y Swyddfa Dywydd, neu ragolygon tywydd mewn papur newydd. Gallant ddewis creu eu hadroddiad mewn amrywiaeth o fformatau yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael gennych e.e. fideo, cyflwyniad, adroddiad ysgrifenedig neu ysgrifennu creadigol.

3 Gofynnwch iddynt ystyried:

- Y gynulleidfa y maent yn cyflwyno iddi (fel ffynhonnell gyfryngol)
- Y dôn a'r iaith a ddefnyddir yn yr adroddiadau hyn (pa brif bwyntiau y mae angen eu cynnwys?)

25 – 30 munud

Gwaith grwp

Cardiau rhagolwg


- Sut maent yn mynd i arddangos yr wybodaeth (pa fathau o lun a ddefnyddir gan y ffynhonnell gyfryngol a ddewiswyd?)

4. Gan fod pawb yn gweithio mewn grwpiau, gofynnwch iddynt feddwl sut y byddant yn rhannu rolau, er enghraifft gallai rhywun fod yn gyfrifol am edrych ar ragolygon y tywydd a nodi gwybodaeth allweddol, gallai rhywun fod yn ysgrifennu'r adroddiad a rhywun arall yn cyflwyno i'r grŵp

5. Os oes gennych amser, gwahoddwch bob grŵp (neu ychydig o grwpiau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael) i adrodd stori eu tywydd wrth y grŵp

6. Dewch â'r wers i ben drwy ofyn i bawb fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu wrth iddynt wrando ar adroddiadau'r tywydd. Crynhowch ei bod yn bwysig dibynnu ar ffynonellau dibynadwy, yn enwedig wrth baratoi pobl yn y ffordd orau bosibl ar gyfer sut mae'r tywydd yn debygol o fod.







© Hawlfraint y Goron 2022,
Y Swyddfa Dywydd

# Cardiau rhagolygon

**Lleoliad: Caeredin**

Glaw trwm a gwyntoedd cryf

Tymheredd dyddiol uchaf: 12 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 9 °C

Tebygrwydd o law: 95%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 29 mya

Cyflymder hyrddau: 61 mya

**Lleoliad**

Eir a pherygl o iâ dros nos

Tymheredd dyddiol uchaf: 2 °C

Tymheredd dyddiol isaf: -8 °C

Tebygrwydd o law: 40%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 6 mya

Cyflymder hyrddau: 12 mya

**Lleoliad: Llundain**

Heulog a chynnes iawn

Tymheredd dyddiol uchaf: 36 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 23 °C

Tebygrwydd o law: 10%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 4 mya

Cyflymder hyrddau: 8 mya

**Lleoliad: Belfast**

Glaw trwm yn troi'n gesair yn y prynhawn

Tymheredd dyddiol uchaf: 10 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 3 °C

Tebygrwydd o law: 90%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 21 mya

Cyflymder hyrddau: 38 mya

# Cardiau rhagolygon

**Lleoliad: Manceinion**

Cawodydd gwyntog

Tymheredd dyddiol uchaf: 15 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 9 °C

Tebygrwydd o law: 70%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 18 mya

Cyflymder hyrddau: 29 mya

**Lleoliad: Plymouth**

Cyfnodau heulog gyda chawodydd gwyntog yn y prynhawn

Tymheredd dyddiol uchaf: 15 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 10 °C

Tebygrwydd o law: 60%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 13 mph

Cyflymder hyrddau: 32 mya

**Lleoliad: Glasgow**

Cawodydd yn troi'n eirlaw yn y prynhawn

Tymheredd dyddiol uchaf: 5 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 2 °C

Chance of precipitation: 80%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 9 mya

Cyflymder hyrddau: 18 mya

**Lleoliad: Norwich**

Haul cryf, gan droi'n gymylog gyda'r hwyr

Tymheredd dyddiol uchaf: 26 °C

Tymheredd dyddiol isaf: 18 °C

Tebygrwydd o law: 20%

Cyflymder gwynt ar gyfartaledd: 10 mya

Cyflymder hyrddau: 16 mya